# CABINET

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA, TREDOMEN AR DDYDD MERCHER, 5ED GORFFENNAF 2017 AM 2.00 P.M.

---

YN BRESENNOL

Y Cynghorydd D.V. Poole - Cadeirydd

Cynghorwyr:

C.J. Cuss (Gofal Cymdeithasol a Lles), N. George (Gwasanaethau'r Gymdogaeth), C.J. Gordon (Gwasanaethau Corfforaethol), Mrs B.A. Jones (Cyllid, Perfformiad a Llywodraethu), P.A.Marsden (Addysg a Chyflawniad), S. Morgan (Economi, Isadeiledd a Chynaliadwyedd), L. Phipps (Cartrefi a Lleoedd) a Mrs E. Stenner (Yr Amgylchedd a Diogelwch y Cyhoedd).

Ar y cyd gyda:

C. Burns (Prif Weithredwr Dros Dro), C. Harrhy (Cyfarwyddwraig Corfforaethol - Cymunedau), N. Scammell (Cyfarwyddwraig Gwasanaethau Corfforaethol Dros Dro a Swyddog Adran 151) a D.Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol).

Hefyd yn Bresennol:

N. Jenkins (Swyddfa Archwilio Cymru), S.J. Byrne (Swyddfa Archwilio Cymru), S. Harris (Pennaeth Cyllid Corfforaethol Dros Dro), S. Richards (Pennaeth Cynllunio, Strategaeth ac Adnoddau Dros Dro), J. Elias (Rheolwr Gwasanaeth – Anghenion Dysgu Ychwanegol) a C. Evans (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

### 1. YMDDIHEURIADAU DROS ABSENOLDEB

Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau dros absenoldeb

### 2. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Datganodd y Cynghorydd C. Cuss ddiddordeb yn Eitem 7 ar yr Agenda (Ysgol 3-18 Rhymni : Canlyniad y Statudol). Mae manylion wedi eu cofnodi gyda'r eitem berthnasol.

### 3. CABINET – 21AIN MEHEFIN 2017

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21ain Mehefin 2017 (rhifau cofnod. 1-7) a'u llofnodi fel cofnod cywir.

## MATERION SYDD ANGEN PENDERFYNIADAU GWEITHREDOL

### 4. SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU - LLYWODRAETHU DA WRTH BENDERFYNU NEWIDIADAU ARWYDDOCAOL I WASANAETHAU - CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI

Cyflwynodd yr adroddiad y Cabinet gydag adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) ar Lywodraethu Da wrth benderfynu ar newidiadau arwyddocaol.

Nodwyd y derbyniodd yr Awdurdod adroddiad gan y SAC ym mis Chwefror 2017 mewn perthynas â llywodraethu da wrth benderfynu ar newidiadau gwasanaethau arwyddocaol. Canolbwyntiodd yr adroddiad ar adolygiad o effeithlonrwydd trefniadau llywodraethu Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (y Cyngor) ar gyfer penderfynu ar newidiadau arwyddocaol i wasanaethau. Mae SAC yn diffinio hyn fel unrhyw newid arwyddocaol o ran darparu gwasanaethau a/neu unrhyw newid arwyddocaol yn y modd y profir gwasanaethau gan ddefnyddwyr gwasanaethau allanol.

Daeth yr adroddiad i'r casgliad fod ymagwedd y Cyngor i newidiadau mewn gwasanaethau wedi bod yn gymesur â maint y newidiadau y mae wedi'u gwneud hyd yn hyn ac mae'n cryfhau ei drefniadau i baratoi ar gyfer newidiadau yn y dyfodol a allai fod yn fwy arwyddocaol.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog: -

(i) y dylid nodi cynnwys adroddiad y SAC Llywodraethu Da Wrth Benderfynu ar Newidiadau Sylweddol i Wasanaethau - Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili;

(ii) y dylid nodi ymatebion Swyddogion i'r cynnig SAC ar gyfer gwella fel y manylir yn Atodiad 4.5 o'r adroddiad;

### 5. ADRODDIAD SAC - CYNLLUNIO ARBEDION (CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI)

Cyflwynodd yr adroddiad y Cabinet gydag adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) ar ei asesiad cynllunio arbedion ar gyfer CBS Caerffili.

Yn y blynyddoedd diwethaf mae SAC wedi cynnal asesiadau gwytnwch ariannol o bob cyngor yng Nghymru ac roedd yr adolygiad diwethaf a gynhaliwyd rhwng Mehefin a Rhagfyr 2016 yn canolbwyntio ar y graddau y cyflawnodd y Cyngor ei gynlluniau arbedion 2015/16, ansawdd y Cynllun Ariannol Tymor Canolig a chadernid cynlluniau arbedion ar gyfer 2016/17.

Cyhoeddwyd adroddiad SAC yn manylu ar ganfyddiadau'r adolygiad diweddaraf ym Mawrth 2017, ac ar y cyfan daeth yr adroddiad i'r casgliad bod gan y Cyngor ddull cynllunio ariannol effeithiol a gwell sy'n cefnogi gwytnwch ariannol ar gyfer y dyfodol. Mae'n dda nodi bod adroddiad y SAC yn cydnabod bod y darlun hwn yn gwella.

Mae adroddiad y SAC yn cynnwys un cynnig ar gyfer gwella, sef i gryfhau trefniadau cynllunio ariannol drwy sicrhau bod cynlluniau arbedion yn cael eu hategu gan achosion busnes cadarn. Mewn ymateb i hyn mae swyddogion wedi datblygu templed newydd i gipio gwybodaeth fanwl ar gynigion arbedion yn y dyfodol.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog: -

(i) cynnwys adroddiad y SAC - Cynllunio Arbedion (Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili)

(ii) y dylid nodi ymatebion Swyddogion i'r cynnig SAC ar gyfer gwella fel y manylir ym mharagraff 4.4 o'r adroddiad;

**6. ALLDRO DROS DRO AR GYFER 2016/17**

Darparodd yr adroddiad fanylion o'r alldro dros dro ar gyfer y flwyddyn ariannol 2016/17 cyn yr archwiliad blynyddol gan Archwiliwr Allanol yr Awdurdod, Grant Thornton, i'r Cabinet.

Cyfeiriwyd y Cabinet at Atodiad A, sy'n crynhoi'r sefyllfa refeniw alldro dros dro sydd yn danwariant net o £12.346miliwn. Mae hyn yn cynnwys tanwariant o £3.977miliwn ar y Cyfrif Refeniw Tai a gorwariant o £555 mil i ysgolion.

Yn ystod y flwyddyn mae Swyddogion wedi parhau i fod yn ymwybodol o'r rhaglen barhaus o doriadau ac mae gwariant wedi ei gwtogi mewn nifer o feysydd er mwyn cefnogi'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Mae'r dull pwyllog hwn wedi arwain at nifer o arbedion yn cael eu cyflawni o flaen llaw ac felly cafwyd tanwariannau uwch nag y byddai'n digwydd fel arfer. Mae manylion yr amrywiadau mwy arwyddocaol yn erbyn y gyllideb yn cael eu darparu yn yr adroddiad ar gyfer pob Cyfarwyddiaeth.

Mae Atodiad B yn dangos symudiadau ar falans y Gronfa Gyffredinol o 1af Ebrill 2016 tan 31ain Mawrth 2017 ynghyd ag ymrwymiadau y cytunwyd arnynt sydd yn gyfredol ar gyfer 2017/18. Y rhagolwg ar gyfer balans y Gronfa Gyffredinol fel yr adroddwyd i'r Cyngor ar yr 22ain Chwefror 2017 oedd £13.910 miliwn. Mae'r sefyllfa ddiweddaraf yn falans rhagamcanol o £15.964 miliwn, sy'n gynnydd o £2.054 miliwn. Mae'r tabl ym mharagraff 4.4 o'r adroddiad yn rhoi manylion y cynnydd hwn.

Nododd aelodau, gan fod y rhagolygon cyllid ar gyfer Llywodraeth Leol yn parhau'n ansicr ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod ar gyfer cyllid craidd a grantiau penodol, argymhellir y dylid cadw balans y Gronfa Gyffredinol yn £13.910 miliwn fel y cytunwyd gan y Cyngor ar yr 22ain Chwefror 2017. Bydd hyn yn golygu bod swm ychwanegol o £2.054 ar gael i'w ddefnyddio ar gyfer dibenion eraill ac argymhellir y dylai hyn gael ei drosglwyddo i Gronfa Cyfalaf Wrth Gefn a Glustnodwyd. Bydd cynigion ar y defnydd o'r Cronfeydd Cyfalaf a Glustnodwyd yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet i'w hystyried yn ddiweddarach eleni.

O ran gwariant cyfalaf, cyfanswm y gwariant ar Raglen Cyfalaf SATC ar gyfer 2016/17 oedd £31.4 miliwn. Cafodd y gwariant hwn ei ariannu gan y Lwfans Atgyweiriadau Mawr £7.4 miliwn gan Lywodraeth Cymru a chyfraniadau refeniw o'r Cyfrif Refeniw Tai o £24 miliwn.

Arweiniodd Rhaglen Gyfalaf y Gronfa Gyffredinol ar gyfer 2016/17 at gyfanswm cyllid o £55.5 miliwn ar gael gan gynnwys yr holl ddyraniadau grant yn ystod y flwyddyn ac arian Adran 106. Roedd swm o £20.5 miliwn yn parhau heb ei wario ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, mae'r mwyafrif ohono yn cynrychioli llithriant sydd wedi cael ei barhau i flwyddyn ariannol 2017/18.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog: -

(i) i nodi sefyllfa alldro dros dro 2016/17;

(ii) i gymeradwyo trosglwyddo £2.054 miliwn i'r Gronfa Cyfalaf Wrth Gefn a Glustnodwyd ym mharagraff 4.5 o'r adroddiad.

**7. YSGOL 3-18 RHYMNI: CANLYNIAD YR HYSBYSIAD STATUDOL**

Datganodd y Cynghorydd C. Cuss ddiddordeb yn yr eitem hon fel Llywodraethwr ar gyfer Ysgol Gyfun Rhymni a gadawodd y cyfarfod tra cafodd ei thrafod.

Darparodd yr adroddiad ddiweddariad i'r Cabinet ar ganlyniad yr Hysbysiad Statudol ac i benderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r cynnig i sefydlu Ysgol 3-18 Rhymni.

Nododd y Cabinet fod yr Awdurdod Lleol wedi dilyn y gweithdrefnau a amlinellir yn y Côd Trefniadaeth Ysgolion (2013) i greu Ysgol 3-18 ar safle Ysgol Gyfun Rhymni. Gan na dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau yn ystod y cyfnod Hysbysiad Statudol, y cam olaf yn y broses yw i'r Cabinet wneud penderfyniad ar y cynnig.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

> PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog, i gymeradwyo'r cynnig i sefydlu Ysgol 3-18 Rhymni sydd i ddod i rym o Ionawr 2018.

**8. CAU CANOLFAN ADNODDAU ARBENIGOL CYFNOD ALLWEDDOL 3 AR GYFER PLANT GYDAG ANAWSTERAU EMOSIYNOL, YMDDYGIADOL A CHYMDEITHASOL YSGOL TRECELYN: CANLYNIAD Y BROSES YMGYNGHORI FFURFIOL.**

Rhoddodd yr adroddiad ddiweddariad i'r Cabinet ar yr ymateb i'r cyfnod Hysbysiad Statudol mewn perthynas â'r cynnig i gau'r ganolfan adnoddau arbenigol cyfnod allweddol 3 yn Ysgol Trecelyn ac i geisio penderfyniad ar y cynnig.

Nododd aelodau fod yr Awdurdod Lleol wedi dilyn gweithdrefnau a amlinellir yn y Côd Trefniadaeth Ysgolion (2013) i gau'r ganolfan adnoddau arbenigol cyfnod allweddol 3 yn Ysgol Trecelyn. Gan na dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau yn ystod y cyfnod rhybudd statudol, y cam olaf yn y broses yw i'r Cabinet wneud penderfyniad ar y cynnig.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

> PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog, i gymeradwyo'r cynnig i gau'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol Cyfnod Allweddol 3 ar gyfer plant gydag anawsterau emosiynol, ymddygiadol a chymdeithasol yn Ysgol Trecelyn.

Terfynwyd y cyfarfod am 2.45 p.m.

Cymeradwywyd a llofnodwyd fel cofnod cywir yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wnaed yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 19eg Gorffennaf, 2017.

______________________

CADEIRYDD